

CYNGOR

(CANOLFAN DDINESIG PORT TALBOT)

Aelodau sy'n Bresennol:

Dydd Mercher, 27 Hydref 2021

Y Maer:	Councillor J.Warman
Y Dirprwy Faer	Councillor J.D.Morgan
Cynghorwyr:	H.C.Clarke, C.Clement-Williams, A.P.H.Davies, O.S.Davies, C.Edwards, S.E.Freeguard, C.Galsworthy, W.F.Griffiths, J.Hale, S.Harris, M.Harvey, N.T.Hunt, S.K.Hunt, J.Hurley, C.James, H.N.James, C.J.Jones, D.Jones, J.Jones, L.Jones, R.G.Jones, S.Jones, D.Keogh, E.V.Latham, D.Lewis, S.Lynch, A.McGrath, J.Miller, S.Miller, R.Mizen, S.Paddison, S.M.Penry, L.M.Purcell, S.Pursey, S.Rahaman, P.A.Rees, S.Renkes, S.H.Reynolds, P.D.Richards, M.Spooner, A.J.Taylor, R.L.Taylor, D.Whitelock, C.Williams, A.Wingrave, R.W.Wood a/ac A.N.Woolcock
Swyddogion sy'n Bresennol:	S.Curran, R.George, C.Griffiths, H.Jones, K.Jones, N.Pearce, A.Thomas, A.Thomas a/ac J.Woodman-Ralph
Cynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Cyfieithu:	Present

1. CYHOEDDIADAU'R MAER

Gyda thristwch mawr dywedodd y Maer wrth y cyngor am lofruddiaeth yr AS dros Orllewin Southend, Syr David Ames, ar ddydd Gwener, 15 Hydref 2021. Roedd meddyliau'r cyngor gyda'r teulu a ffrindiau ar yr adeg hon.

Fel arwydd o barch, cafwyd munud o ddistawrwydd gan yr Aelodau.

Ar nodyn mwy cadarnhaol, llongyfarchodd y cyngor y Cynghorydd S Rahaman a'r teulu ar enedigaeth eu mab.

Hefyd, llongyfarchodd y cyngor Olivia Rachel Thomas, 10 oed o Ward Tai-bach, ar ei llwyddiant diweddar ym Mhencampwriaethau Carate'r Byd yn Rwmania.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Datganiadau o fudd dim a dderbyniwyd

3. **SIARAD CYHOEDDUS YNG NGHYFARFODYDD Y CYNGOR**

Cyflwynodd y Cynghorydd J D Morgan, Cadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad ac argymhellodd Siarad Cyhoeddus mewn cyfarfodydd i'r cyngor i'w gymeradwyo.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod y cynnig yn un o ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau Cymru 2021. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu ffyrdd o hyrwyddo a hwyluso prosesau y gall pobl leol eu defnyddio i gyflwyno sylwadau i'r prif gyngor ynghylch penderfyniad cyn, ac ar ôl iddo gael ei wneud, fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Mae Protocol Siarad Cyhoeddus wedi'i ddatblygu fel rhan o ofynion y Ddeddf a chafodd ei ystyried a'i gefnogi i'w gymeradwyo i'r cyngor yng nghyfarfod Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd ar 11 Hydref 2021, yn effeithiol o 3 Ionawr 2022.

Diolchodd y Cynghorydd J D Morgan i Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd am yr holl waith yr oeddent wedi'i wneud i ddod â'r cynnig hwn gerbron y cyngor heddiw.

Roedd gwaith y pwyllgor yn y dyfodol yn cynnwys cyfranogiad y cyhoedd a fyddai'n dod gerbron y cyngor maes o law.

PENDERFYNWYD: Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Sgrinio Integredig:

1. Cymeradwyo'r Protocol Siarad Cyhoeddus fel a nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd gyda dyddiad gweithredu o 3 Ionawr 2022.
2. Rhoi awdurdod dirprwyedig i Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

i ddiweddarau'r Cyfansoddiad i gynnwys cyfeiriad at y Protocol Siarad Cyhoeddus.

4. **SEFYDLU AELODAU 2022 A'R RHAGLEN AMRYWIAETH MEWN DEMOCRATIAETH**

Cyflwynodd y Cynghorydd J D Morgan, Cadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad a oedd i'w nodi gan y cyngor.

5. **ADOLYGIAD 2023 O ETHOLAETHAU SENEDDOL - WEDI'I DDIWYGIO**

Rhoddodd y Prif Weithredwr, K Jones, drosolwg o'r adroddiad i'r cyngor.

PENDERFYNWYD: Anfon ymateb i'r Comisiwn Ffiniau, yn cynnwys barn swyddogion yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, ynghyd â materion eraill a godwyd gan Aelodau yn y cyfarfod hwn o'r Cyngor Llawn.

6. **HYSBYSIAD O GYNNIG O DAN ADRAN 10 O RAN 4 (RHEOLAU GWEITHDREFNAU) CYFANSODDIAD Y CYNGOR**

Ni dderbyniwyd unrhyw un

7. **CWESTIYNAU GAN AELODAU, GYDA HYSBYSIAD, DAN REOL 9.2 O REOLAU GWEITHDREFNAU'R CYNGOR**

Ni dderbyniwyd unrhyw un

8. **EITEMAU BRYD**

Ni dderbyniwyd unrhyw un

- 4 -

CHAIRPERSON